# Cynefinoedd ein Gwrychoedd - Cynllun Gwers

**Oedran Arfaethedig:** Cyfnod Sylfaen

**Maes Dysgu:** Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

NFU CYMRU
Fferm Wyddoniaeth

## Cysylltiadau Cwricwlwm

**Ystod -** Fi fy hun a phethau byw eraill, Fi fy hun a phethau nad ydynt yn fyw

**Sgiliau** - archwilio ac arbrofi, gwneud arsylwadau a mesuriadau a chadw cofnodion, didoli a grwpio gwybodaeth gan ddefnyddio TGCh ar brydiau, gweld cysylltiadau rhwng achos ac effaith, ffurfio cysylltiadau rhwng gwahanol elfennau sy'n ymwneud â Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd, cyfleu arsylwadau a mesuriadau, disgrifio'r hyn y maent wedi'i ddarganfod a chynnig esboniadau syml, defnyddio geiriau ac ymadroddion syml ar gyfer eu byd ac ymgyfarwyddo â'r geiriau hynny.

## Amcanion Dysgu:

**Medru esbonio'r diffiniad o 'gynefin'**
**Archwillio cynefin ac adnabod y ffurfiau o fywyd sydd ynddo**

**Geirfa Allweddol:**
Cynefin, Gwrych/Sietyn, Cysgod, Cynhersrwydd, Bwyd, Ysgylfaethwr, Trychfil, Anifail, Planhigyn, Godre, Pryf copyn, Miltroed, Iâr Fach y Haf

## Cyflwyniad:

Gan ddefnyddio byrddau gwyn bychain, papur sgrap, labeli gludog ayyb. Gofynnwch i'r plant ysgrifennu neu ddarlunio'r hyn sydd yn gwneud eu cartref yn le da i fyw ynddo.
Trafodwch yr atebion fel dosbarth a nodwch yr anghenion allweddol e.e. Bwyd, cynhersrwydd, cysgod.
Gwyliwch y fideo 'Science Farm – Hedgerow Habitat Heroes' ar www.nfu-cymru.org.uk

## Prif Sesiwn:

Bydd angen chwilio man addas i gynnal helfa sborion gyda'ch dosbarth. Gallai hwn fod yn iard chwarae, yn gae chwaraeon, yn barc cyfagos neu yn rhan o ymweliad fferm. Yn amlwg, bydd cynefinoedd gwahanol yn creu canlyniadau gwahanol. Gallech greu rhestr i gynorthwyo'r disgyblion gasglu ystod ehangach o eitemau, er enghraifft gan ganolbwyntio ar liw, llythrennau neu os yw'r gwrthrych yn fyw/farw/erioed yn fyw.

Bydd y plant yn llenwi taflen 'Edrychwch ar hwn!' wrth iddynt ddarganfod anifeiliaid, trychfilod neu blanhigion. Gellir wneud hyn yn unigol, fel grŵp neu gellid ddarparu'r atebion ar lafar i oedolyn, yn dibynnu ar lefel eu gallu.

Bydd offer syml fel chwyddwydrau, microsgopau a chlipfyrddau yn cyfoethogi profiadau'r dysgwyr ac yn galluogi iddynt gynnig atebion dyfnach  pan ofynnir iddynt ddisgrifio'r hyn maent yn ei weld.

Mae defnyddio dysglau petri plastig yn ffordd rhad ac hawdd i ddal ac archwilio trychfilod yn ddiogel. Mae'n bwysig pwysleisio'r angen i ofalu am yr amgylchedd ac atgoffa plant i beidio pigo na symud planhigion byw ac i ddychwelyd trychfilod i'r man eu cafwyd.

## Sesiwn Grynhoi:

Gwaith pâr/Rhannu: - Pa drychfilod wnaethoch chi ddarganfod? Pa un oedd eich ffefryn a pham? Meddyliwch am eich hoff drychfil; beth ydych chi'n meddwl oedden nhw'n chwilio pan yn edrych am le i fyw?

Defnyddiwch adnodd "Dwi'n byw yn y gwrych, beth sydd angen arna i' a gofynnwch i'r plant weithio mewn grwpiau er mwyn ysgrifennu neu ddarlunio'r hyn sydd angen ar bob planhigyn neu anifail o'r gwrych. Os oes angen atgoffa'r plant o'r hyn sydd angen ar blanhigion i dyfu, dangoswch fidio'r Dyddiadur Moron iddynt.

## Gweithgareddau Ymestynnol a syniadau pellach:

Mae'r gweithgaredd hwn yn gweithio yn dda iawn fel rhan o ymweliad â fferm leol. Rhannwch y gweithgaredd gyda'r ffermwr cyn y digwyddiad er mwyn adnabod mannau i'w harchwilio. Gallech ddangos y fideo o flaen llaw i'r dysgwyr medrus.